

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb  
a Llywodraeth Leol

**Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin  
Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru):  
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

November 2014



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8032  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Pwyllgor.CCLIL@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLIL@cymru.gov.uk)  
Twitter: [@SeneddCCLIL](https://twitter.com/SeneddCCLIL)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb  
a Llywodraeth Leol

**Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin  
Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru):  
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Tachwedd 2014



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman  
(Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Peter Black**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Alun Davies**  
Llafur Cymru  
Blaenau Gwent



**Jocelyn Davies**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Janet Finch-Saunders**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Aberconwy



**Mike Hedges**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Mark Isherwood**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Gwyn R Price**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Gwenda Thomas**  
Llafur Cymru  
Castell-nedd



**Rhodri Glyn Thomas**  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Leighton Andrews**  
Llafur Cymru  
Rhondda



**Jenny Rathbone**  
Llafur Cymru  
Canol Caerdydd

# Cynnwys

---

<b>Crynodeb o gasgliadau ac argymhellion .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>7</b>
Cylch craffu .....	7
Dull gweithredu'r Pwyllgor .....	8
<b>2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....</b>	<b>9</b>
Y Papur Gwyn .....	9
Y Bil .....	10
Diben y Bil .....	11
Agweddau'r Cyhoedd .....	12
Hawliau dynol a therminoleg ryw-benodol .....	13
Rhaglenni Tramgwyddwyr .....	15
<b>3. Addysg .....</b>	<b>20</b>
<b>4. Plant a Phobl Ifanc.....</b>	<b>26</b>
Hawliau plant a phobl ifanc.....	26
Cosbi plant yn rhesymol .....	29
<b>5. Strategaethau Cenedlaethol a Lleol .....</b>	<b>35</b>
<b>6. Mesurau perfformiad a chanllawiau.....</b>	<b>42</b>
Dangosyddion cenedlaethol .....	43
Canllawiau statudol .....	44
<b>7. Cynghorydd Gweinidogol.....</b>	<b>49</b>
<b>8. Diffiniadau .....</b>	<b>54</b>
<b>9. Goblygiadau ariannol .....</b>	<b>58</b>
<b>Atodiad 1: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig.....</b>	<b>62</b>



## **Crynodeb o gasgliadau ac argymhellion**

---

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i'r Gweinidog isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Gweler tudalennau perthnasol yr adroddiad am y dystiolaeth ategol a'r casgliadau.

**Argymhelliad 1.** Argymhellwn fod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 2.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil fel a ganlyn:

- darparu ar gyfer fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod gan ddiodefwr hawl statudol i wasanaethau;
- cyfeirio at Drais yn erbyn Menywod, yn hytrach na Thrais ar sail Rhywedd. Ni ddylai hyn atal dynion rhag defnyddio gwasanaethau ond dylai sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion penodol dynion a menywod yn eu tro;
- cyfeirio'n benodol at effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar blant, p'un a ydynt yn fechgyn neu'n ferched. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 3.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil er mwyn darparu ar gyfer rhaglenni addysg gorfodol, ysgol gyfan, sy'n briodol i oedran ar gydberthnasau iach. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 4.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil fel ei fod yn cyfeirio'n benodol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er mwyn sicrhau bod awdurdodau yn ystyried hyn wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn egluro sefyllfa bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu amddiffyniad cosbi plentyn yn rhesymol. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 6.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil er mwyn darparu ar gyfer y canlynol:

- bod y strategaeth genedlaethol yn cynnwys cyfres o ofynion sylfaenol ar gyfer dylunio, gweithredu a monitro strategaethau lleol;

- bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ymgynghori â darparwyr gwasanaeth, yr heddlu, dioddefwyr ac unrhyw grwpiau perthnasol eraill wrth ddylunio'r strategaethau cenedlaethol a lleol;

- bod swyddog arweiniol yn cael ei benodi o fewn pob awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir y strategaeth leol.

(Tudalen 40)

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn sicrhau bod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gael i ddarparwyr gwasanaeth arbenigol yn ogystal â staff y sector cyhoeddus. (Tudalen 48)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil fel a ganlyn:

- darparu ar gyfer cynghorydd sy'n annibynnol ar lywodraeth, a gefnogir gan ysgrifenyddiaeth nad yw'n perthyn i'r gwasanaeth sifil;

- newid teitl y swydd er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa hyd braich hon;

- rhoi'r pŵer i'r cynghorydd fonitro hynt y broses o gyflawni strategaethau lleol a chynnal ymchwiliadau mewn achosion lle cafwyd perfformiad anfodhaol. (Tudalen 53)

**Argymhelliad 9.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil er mwyn mabwysiadu'r canlynol:

- diffiniad y Cenhedloedd Unedig o 'drais yn erbyn menywod';

- diffiniad y Swyddfa Gartref o 'drais a cham-drin domestig',

gydag addasiadau priodol er mwyn sicrhau bod y diffiniadau hyn yn cyfateb i ddiffiniadau eraill a ddefnyddir yn y Bil. (Tudalen 57)

**Argymhelliad 10.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried ymhellach y diffiniad o drais rhywiol yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law.

(Tudalen 57)

**Argymhelliad 11.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried ymhellach y lefel o arian a ddyrennir i weithredu'r Bil. (Tudalen 60)

**Argymhelliad 12.** Argymhellwn fod y Gweinidog yn gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn monitro effaith ac effeithiolrwydd y Bil, gan gynnwys yr adnoddau a ddyrennir ac unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil ei weithredu. (Tudalen 61)



# 1. Cyflwyniad

---

1. Ar 30 Mehefin 2014, cyflwynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd y [Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#) ('y Bil') ynghyd â [Memorandwm Esboniadol](#). Gwnaeth y Gweinidog [ddatganiad](#) ar y Bil yn y cyfarfod llawn ar 1 Gorffennaf 2014.
2. Yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2014, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') er mwyn ystyried ei egwyddorion cyffredinol (Cam 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor adrodd yn ôl i'r Cynulliad erbyn 14 Tachwedd 2014.
3. Yn sgil newid mewn portffolios Gweinidogol ym mis Medi 2014, awdurdododd y Prif Weinidog y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews AC, i fod yn gyfrifol am y Bil. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad hwn at 'y Gweinidog' yn cyfeirio at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Cylch craffu

4. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer ymchwiliad Cam 1:

I ystyried:

- i. egwyddorion cyffredinol Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth er mwyn gwella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol, gan gynnwys:
  - cyhoeddi strategaethau cenedlaethol a lleol;
  - penodi Cynghorydd Gweinidogol ar Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- ii. unrhyw rwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau hyn a ph'un a yw'r Bil yn eu hystyried;
- iii. p'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- iv. goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);

- v. priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

### **Dull gweithredu'r Pwyllgor**

5. Rhwng 11 Gorffennaf 2014 a 5 Medi 2014, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn llywio ei waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Daeth 90 o [ymatebion](#) i law ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad.
6. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda nifer o dystion. Mae'r manylion ar gael yn [Atodiad 1](#).
7. Mae'r adroddiad canlynol yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei ymchwiliad. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu at ei waith.

## 2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

8. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:
- roeddent o blaid diben a bwriad cyffredinol y Bil, ond roedd ganddynt bryderon difrifol am ei gynnwys;
  - mae darpariaethau'r Bil fel y'u cyflwynwyd yn cynnwys polisi ac ymarfer presennol yn hytrach na'u gwella;
  - dylai'r Bil fod yn fwy uchelgeisiol, yn sgil y gwaith arloesol y mae gan Gymru enw da amdano yn y maes hwn, yn enwedig o ran newid agweddau hirdymor.

### *Cefndir*

#### **Y Papur Gwyn**

9. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad [Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestigyn 2012](#). Cafodd [crynodeb o'r 147 o ymatebion unigol](#) ei gyhoeddi ym mis Medi 2013.
10. Canolbwyntiodd cynigion y Papur Gwyn ar dri maes penodol:
- arweinyddiaeth gryfach ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n annibynnol, a all fonitro a herio, a darparu trosolwg strategol;
  - gwell addysg ac ymwybyddiaeth o'r 'crud i'r bedd', sy'n cynnwys y cyhoedd, staff rheng flaen a gweithwyr proffesiynol;
  - atgyfnerthu ac integreiddio gwasanaethau sy'n gyson, yn effeithiol ac o safon.
11. Yn benodol, cynigiodd y Papur Gwyn wneud y canlynol:
- penodi 'Cynghorydd Gweinidogol Annibynnol ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod' (Cynghorydd)
  - ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus gydweithio ar lefel leol a rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn seiliedig ar ddadansoddiad o asesiad anghenion;

- comisiynu adolygiad annibynnol o wasanaethau i ddioddefwyr;
- sicrhau bod addysg ar 'gydberthnasau iach' yn cael ei chyflwyno ym mhob ysgol, a gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi hyrwyddwr rhanbarthol i hyrwyddo'r mater mewn lleoliadau addysgol;
- cyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol y bydd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol allweddol yn rhoi ystyriaeth ddyledus iddo;
- gosod dyletswyddau amrywiol ar gyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus i wneud y canlynol:
  - cyfrannu at fforymau amlasiantaethol a gynullir i rannu gwybodaeth a hyrwyddo diogelwch unigolion sydd mewn perygl o ddioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol;
  - 'holi a gweithredu' mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn enwedig mewn tai;
  - darparu llety diogel;
  - cael polisi yn y gweithle o ran cam-drin domestig i gyflogeion.

12. Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei gomisiynu i lunio [adroddiad](#) i lywio cynnwys y Bil a'r dull o'i gyflawni a'i orfodi, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012. Hefyd, cafodd [adolygiad annibynnol o wasanaethau](#) ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2014.

13. Ni chafodd holl gynigion y Papur Gwyn na holl argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu cynnwys yn y Bil. Ni chafodd cynigion yn ymwneud ag addysg ar gydberthnasau iach, polisiau yn y gweithle na llety diogel eu cynnwys yn y Bil. Fe'u rhoddir ar waith mewn ffyrdd eraill. Hefyd, newidiodd deitl y Bil a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd ynddo.

## **Y Bil**

14. Prif nod y Bil yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriedir iddo ganolbwyntio'n strategol ar y materion hyn a sicrhau y caiff camau ataliol, amddiffynnol a chefnogol eu hystyried yn gyson wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

15. Mae pedair elfen i'r Bil, a chaiff y Memorandwm Esboniadol ei strwythuro o'u cwmpas:

- y ddyletswydd i baratoi strategaethau cenedlaethol ac adrodd arnynt;
- y ddyletswydd i baratoi strategaethau lleol ac adrodd arnynt;
- y pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol a'r ddyletswydd i ddilyn canllawiau o'r fath;
- penodi Cynghorydd Gweinidogol ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### ***Tystiolaeth gan ymatebwyr***

#### **Diben y Bil**

16. Roedd ymatebwyr o blaid diben a bwriad y Bil, er inni glywed tystiolaeth yn mynegi pryderon mawr am ei gynnwys.

17. Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru wrthym fod y Bil "yn cynnig cyfle arwyddocaol i Gymru arwain y ffordd yn y DU mewn lleihau ac atal trais a cham-drin domestig, a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddiodefwr".<sup>1</sup>

18. Nododd Bawso fod y Bil yn dangos:

“(...) recognition and commitment to prevent violence from occurring, protect all women in Wales from violence and ensuring the provision of adequate services for those fleeing or at risk of violence.”<sup>2</sup>

19. Fodd bynnag, dywedodd hefyd, heb iaith ryw-benodol a heb elfennau ataliol, na fyddai'r Bil yn cyflawni ei nodau.<sup>3</sup>

20. Roedd llawer o ymatebwyr yn siomedig nad oedd rhai o'r cynigion yn y Papur Gwyn wedi'u cynnwys yn y Bil, yn enwedig y cynigion hynny a oedd yn ymwneud ag addysg a therminoleg ryw-benodol. Ar y mater hwn, mae Argyfwng Trais yn “feel strongly that the content of the Bill

---

<sup>1</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV50

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV52

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV52

as published demonstrates a clear weakening of the original intent outlined in the White Paper”.<sup>4</sup>

21. Dywedodd Llamau wrthym, heb ymyrraeth gynnar na chamau ataliol mewn ysgolion, nad oedd o'r farn y gallai'r Bil gyflawni ei botensial.<sup>5</sup> Adleisiwyd hyn gan Ymddiriedolaeth y Goroeswyr, a ddywedodd “education is key to making sure that this Bill is effective and that it works for young people and their families”.<sup>6</sup>

22. Nododd yr NSPCC:

“... it is going to be very difficult to deliver on the strategic and generational aims of this piece of legislation unless that question of education is actually contained within this Bill.”<sup>7</sup>

23. Galwodd Ymddiriedolaeth y Goroeswyr am i ail brif nod polisi gael ei ychwanegu at y Bil er mwyn “improve the availability, consistency and quality of services available throughout Wales for victims/survivors of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence”.<sup>8</sup>

### **Agweddau'r Cyhoedd**

24. Dywedodd llawer o'r ymatebion i'n hymgyngoriad wrthym na ellid cyflawni nodau'r Bil heb newid agweddau'r cyhoedd tuag at gam-drin, yn enwedig trais yn erbyn menywod. Nodwyd bod addysg yn ffordd allweddol o gyflawni hyn (a ystyrir yn fanylach ym Mhennod 4).

25. Nododd Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod mai un o fwriadau gwreiddiol y Bil oedd ymdrin ag agweddau ehangach cymdeithas tuag at drais yn erbyn menywod a merched er mwyn herio agweddau a chanolbwyntio ar gamau ataliol. Fodd bynnag, dywedodd y Grŵp ei fod yn teimlo nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y Bil.<sup>9</sup>

26. Tanlinellodd dystiolaeth y Grŵp Gweithredu y gwaith arloesol a wnaed yng Nghymru i newid agweddau tuag at drais yn erbyn menywod mewn blynyddoedd diweddar drwy “shifting focus towards

---

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV56

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion (CyT), paragraff 204, 25 Medi 2014 (DS: oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau dilynol at 'CyT' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol)

<sup>6</sup> CyT, paragraff 213, 25 Medi 2014

<sup>7</sup> CyT, paragraff 33, 17 Medi 2014

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV18

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV89

perpetrators, wider forms of violence and unacceptable behaviour and away from focusing entirely on the victim.” Dywedodd, drwy ddarparu ar gyfer hyn yn y ddeddfwriaeth, y byddai'n rhaid i lywodraethau'r dyfodol barhau i gyflawni'r gwaith hanfodol hwn.<sup>10</sup>

27. Roedd Argyfwng Trais o'r un farn, gan nodi na fyddai cynnwys y fath ddarpariaeth yn golygu “the Bill will be limited in its ability to challenge attitudes”.<sup>11</sup>

28. Dywedodd Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod wrthym “there is already a national strategy and that there are already local strategies and ministerial advisers”,<sup>12</sup> a bod y Bil hwn yn syml yn cynnwys polisi ac ymarfer presennol yn hytrach na gwneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn lleihau nifer yr achosion o drais ar sail rhywedd.

### **Hawliau dynol a therminoleg ryw-benodol**

29. Yn ôl y [Confensiwn ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig](#), y cyfeirir ato'n gyffredin fel Confensiwn Istanbwl, mae trais ar sail rhywedd yn fath o wahaniaethu ac yn ymyrryd â hawliau dynol. Mae hefyd yn arwydd o'r cydberthnasau pŵer anghyfartal hanesyddol rhwng dynion a menywod.

30. Dywedodd llawer o ymatebwyr wrthym eu bod o blaid lleihau nifer yr achosion o drais ar sail rhywedd, sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod, a'i gwneud yn haws i ddioddefwyr cam-drin, waeth beth fo'u rhyw, gael gafael ar wasanaethau. Cafodd dadl Cymorth i Fenywod Cymru dros derminoleg ryw-benodol ei chrynhoi fel a ganlyn:

“Violence against women (...) is the most pervasive human rights violation that we face- that is recognised by the United Nations. ‘Violence against women’ (...) is violence and abusive behaviours experienced disproportionately by women, or because they are women. That is not to say that men do not experience those crime types, those behaviours, and that is not to say that men and boys should not have access to services.

“(...) when we talk about violence against women as a framework, we are talking about strategy, policy and

---

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV89

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV56

<sup>12</sup> CyT, paragraff 10, 25 Medi 2014

legislation. On the ground, specialist services and commissioning needs to happen for all victims; they need to have access to services, access to redress and also all perpetrators, male or female, need to have intervention.”<sup>13</sup>

31. Tynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru sylw at strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, sef *Yr Hawl i fod yn Ddiogel*, sy'n nodi "mae trais yn erbyn menywod yn un o achosion anghydraddoldeb menywod ac yn un o ganlyniadau hynny ac er mwyn mynd i'r afael ag ef bydd angen mabwysiadu dull gweithredu penodol".

32. Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) fod y term "trais yn erbyn menywod" wedi'i argymhell gan adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru, a arweiniodd at ddefnyddio'r term yn ymgynghoriad y Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.<sup>14</sup>

33. Aeth y Comisiwn ymlaen i ddweud:

“The change of emphasis, to use and define the term gender-based violence is in contrast to the Welsh Government’s ‘The Right to be Safe’ and the Home Office’s ‘A call to end violence against women and girls: action plan 2014,’ which covers England and Wales.

“Violence against women is a consequence of continuing inequality between women and men, and is also a barrier to achieving equality.”<sup>15</sup>

34. Dadleuodd yr Athro Jackie Jones y dylai'r Bil fod yn rhyw benodol yn hytrach nag yn niwtral o ran y rhywiau. Dywedodd nad oedd dull o'r fath wedi'i "proscribed by law"<sup>16</sup> a bod Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod wedi beirniadu Gwladwriaethau a oedd yn defnyddio dull niwtral o ran y rhywiau. Dadleuodd:

“Making legislation gender neutral implies that men are subject to the same systemic obstacles and inequality as women and

---

<sup>13</sup> CyT, paragraff 23, 25 Medi 2014

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV65

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV65

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV06



have suffered from the same level of historic discrimination as women. This is not the case. (...) A gender-neutral approach cannot and will not improve 'prevention, protection or support' (as outlined in the Bill)."<sup>17</sup>

35. Cyfeiriodd at nifer o gynseiliau rhyngwladol o ran deddfwriaeth a strategaethau rhyw-benodol, gan gynnwys '[Confensiwn Istanbwl](#)' a '[Convention of Belem do Pará](#)', y mae'r ddau yn sefydlu fframweithiau i amddiffyn menywod. Dywedodd fod Confensiwn Istanbwl, y mae'r DU wedi ymrwmo iddi, yn "seen as the most progressive instrument in force today that clearly sets out [member] states' obligations in the specific area of violence against women." Dywedodd, er nad yw'r Confensiwn yn gwahardd dynion, ei fod yn "makes it clear that because of the vast numbers of victims of gender-based violence in Europe, the focus has to be women and girls."<sup>18</sup>

36. Galwodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, am i deitl y Bil gael ei newid. Ar y mater hwn, dywedodd y Comisiynydd fod teitl y Bil yn "important to signal the intentions of Legislators and Ministers as that can 'change the weather' in terms of public attitudes and understanding". Gwnaeth sawl awgrym mewn perthynas â newid teitl a geiriad y Bil er mwyn "take the Bill closer to the intentions in the White Paper". Dywedodd y byddai newidiadau o'r fath yn gwneud y canlynol yn glir:

"ALL forms of domestic violence, sexual violence and violence within relationships are covered: An Act of the National Assembly for Wales to make provision in relation to violence against women & other domestic and sexual abuse."<sup>19</sup>

### **Rhaglenni Tramgwyddwyr**

37. Cafwyd tystiolaeth gan rai ymatebwyr a oedd yn pryderu am y ffaith nad oedd cyfeiriad at dramgwyddwyr na rhaglenni tramgwyddwyr yn y Bil. Yn hyn o beth, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

"In order to fully implement purpose 1(1)(a) of the Bill which relates to the prevention of gender based violence, domestic

---

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV06

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV06

<sup>19</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig atodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru](#)

abuse and sexual violence, a whole part could be added to the Bill to deal with perpetrators. This would ensure that legislation does not only relate to the punishment of the behaviour but would also address the whole offending behaviour.”<sup>20</sup>

38. Roedd Relate Cymru hefyd yn “disappointed that perpetrators are not really mentioned in this Bill, because they are, generally speaking, the cause of this problem. So, we think that it is very important that specific mention and instructions are included in this Bill on working with perpetrators.”<sup>21</sup>

39. Soniodd am ei ‘rhaglen tramgwyddwyr gwirfoddol’ a weithredir ar hyn o bryd, gan nodi:

“90% of the partners that we question sometime after the end of the programme say that there has been a complete stop in violence and intimidation by their partner.”<sup>22</sup>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

40. Wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd yr Aelod gwreiddiol a oedd wrth y llyw, sef Lesley Griffiths AC, wrthym:

“Violence against women is obviously a form of gender-based violence. I think it is safe to say that it is the most prevalent form of gender-based violence, and, obviously, it is therefore included in the Bill. Our position as a Government is unchanged. We recognise the Council of Europe and we agree with it regarding the gendered nature of domestic abuse and sexual violence and the fact that victims are predominantly women and perpetrators are predominantly men.”<sup>23</sup>

41. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd yr Aelod newydd sydd bellach wrth y llyw, sef Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ei fod yn bwriadu diwygio'r Bil ar Gam 2 gan gynnwys adran newydd a fydd yn “require those exercising the functions of the Bill (...) to have regard to violence against women and girls”<sup>24</sup>.

---

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV81

<sup>21</sup> CyT, paragraff 186, 25 Medi 2014

<sup>22</sup> CyT, paragraff 201, 25 Medi 2014

<sup>23</sup> CyT, paragraff 7, 17 Gorffennaf 2014

<sup>24</sup> CyT, paragraff 3, 1 Hydref 2014

42. Dywedodd hefyd nad oedd wedi “reached any final conclusions” am deitl y Bil a'i fod yn “open to suggestions.”<sup>25</sup>

43. Gwnaethom holi'r Gweinidog am y ffaith nad oedd rhaglenni tramgwyddwyr wedi'u cynnwys yn y Bil. Wrth ymateb, dywedodd nad oedd yn credu bod rhaglenni o'r fath wedi'u hepgor:

“... because, clearly, the Bill has a bearing on all persons affected by issues of gender-based violence, and that would, of course, include perpetrators as well.”<sup>26</sup>

### ***Ein barn ni***

44. Prif nod polisi'r Bil yw gostwng cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.<sup>27</sup> Cefnogwn y nod hwn, a chredwn fod deddfwriaeth yn elfen angenrheidiol a hanfodol yn hyn o beth. Fodd bynnag, fel y mae wedi'i ddrafftio, credwn fod y Bil yn methu'r nod.

45. Yn hytrach na darparu ar gyfer dull newydd uchelgeisiol o drechu problem barhaus cam-drin domestig, mae'r Bil yn creu strwythur ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd i raddau amrywiol yn ôl awdurdodau lleol gwahanol. Er mwyn cyflawni ei botensial o ran cyfrannu at y gwaith o atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae angen gwneud newidiadau mawr i'r Bil, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â'i ddull o ymdrin â'r materion hyn, ac mewn perthynas ag addysg (a drafodir yn fanwl ym Mhennod 4).

46. Wrth ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, rydym wedi ceisio gwahaniaethu rhwng trais yn erbyn menywod, sy'n fath o gam-drin rhyw-benodol, a'r gwasanaethau a ddylai gael eu darparu i unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol, a ddylai, yn ein barn ni, gael eu darparu ar sail angen yn hytrach na rhywedd. Fodd bynnag, mae angen i'r ffordd y darperir y gwasanaethau hyn ddiwallu anghenion gwahanol rhwng y rhywiau. Ar sail hyn, nid ydym yn cefnogi'r trywydd niwtral o ran y rhywiau a ddilynir gan y Gweinidog yn y Bil hwn.

47. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno adran newydd yn y Bil, sy'n ymdrin yn benodol â'r gofyniad i awdurdodau ystyried trais yn

---

<sup>25</sup> CyT, paragraff 13, 1 Hydref 2014

<sup>26</sup> CyT, paragraff 84, 1 Hydref 2014

<sup>27</sup> [Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 33

erbyn menywod a merched wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod hyn yn mynd yn ddigon pell.

48. Yn hytrach, credwn y dylai'r Bil ddilyn yr un trywydd â'r hyn a gynigir yn y Papur Gwyn o ran ystyried bod bywyd sy'n rhydd o drais a cham-drin yn hawl. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r Bil ddilyn fframwaith seiliedig ar hawliau, yn unol ag argymhellion rhyngwladol, gan gynnwys Confensiwn Istanbwl a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod. Byddai fframwaith o'r fath yn sicrhau bod gan bob dioddefwr hawl statudol i wasanaethau. Nodwn fod camau tebyg yn seiliedig ar hawliau wedi cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

49. At hynny, ac yn benodol mewn perthynas â chynigion y Gweinidog am adran newydd, credwn y dylai'r Bil gyfeirio at 'blant', yn hytrach na 'merched', oherwydd mae effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn sylweddol ac yn barhaol ar blant, p'un a ydynt yn fechgyn neu'n ferched. Dylai unrhyw gyfeiriad o'r fath nodi'n glir fod y darpariaethau perthnasol yn y Bil yn gymwys i blant hyd at ac yn cynnwys 16 oed. Trafodwn faterion sy'n effeithio ar blant ymhellach ym Mhennod 5.

50. Byddai angen i newidiadau i'r ffordd y mae'r Bil yn gweithredu, fel y'u hargymhellwn, gael eu hadlewyrchu yn ei deitl. Mae'n well gennym y geiriad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn ei Phapur Gwyn, a oedd yn cyfeirio at 'Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol'.

**Argymhellwn fod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.**

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil fel a ganlyn:**

- darparu ar gyfer fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod gan ddioddefwyr hawl statudol i wasanaethau;
- cyfeirio at Drais yn erbyn Menywod, yn hytrach na Thrais ar sail Rhywedd. Ni ddylai hyn atal dynion rhag defnyddio gwasanaethau ond dylai sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion penodol dynion a menywod yn eu tro;

- cyfeirio'n benodol at effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar blant, p'un a ydynt yn fechgyn neu'n ferched.

### 3. Addysg

---

#### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

51. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- addysg yw'r rhan fwyaf hanfodol o atal trais ar sail rhywedd a heb gynigion y Papur Gwyn ni all y Bil gyflawni ei nodau;
- nid yw'r adolygiad o'r cwricwlwm yn ddigon i sicrhau newid; nid yw'r argymhellion yn orfodol ac ni all yr adolygiad ystyried materion ehangach fel hyrwyddwyr ysgol ac arolygiadau Estyn;
- nid yw darpariaeth bresennol yn orfodol, ac mae'n ddarniog ac yn anghyson; nid yw sesiynau untro i ddisgyblion uwchradd ar addysg cydberthnasau iach yn ddigonol ac mae angen i'r mater gael ei ymgorffori yn y cwricwlwm o'r blynyddoedd cynnar.

#### *Cefndir*

52. Roedd [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig](#) yn cynnwys cynigion i sicrhau bod addysg ar 'gydberthnasau iach' yn cael ei chyflwyno ym mhob ysgol. Hefyd, cynigiodd osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi hyrwyddwr rhanbarthol i hyrwyddo dull ysgol gyfan o ymdrin â'r mater hwn mewn lleoliadau addysgol.

53. Nododd y Papur Gwyn:

"Cafwyd cefnogaeth aruthrol hefyd o ddigwyddiadau ymgysylltu'r Bil a gynhaliwyd gennym ledled Cymru, ac roedd defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau am i faterion addysg ac ymwybyddiaeth gael eu trin yn gyson ac yn effeithiol ledled Cymru.

"Dywedodd y rhan fwyaf o bobl mai'r materion hyn oedd eu blaenoriaeth uchaf a chytunwn na fyddwn byth yn datrys y broblem heb ganolbwynt cryf ar atal."<sup>28</sup>

54. Croesawodd ymatebion i'r Papur Gwyn y cynigion o ran addysg a thanlinellwyd pwysigrwydd parhau i ymdrin ag addysg mewn ffordd

---

<sup>28</sup> Papur Gwyn, [Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth ar gyfer Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#), 2012, paragraff 35

gyffredinol, sy'n gyson rhwng lleoliadau gwahanol ac i oedrannau gwahanol.

55. Nid yw'r cynnig hwn wedi'i gynnwys yn y Bil. Mae addysg ar 'gydberthnasau iach' bellach yn cael ei hystyried fel rhan o'r [adolygiad o'r cwricwlwm](#) a arweinir gan yr Athro Graham Donaldson, a fydd yn cynnwys adolygiad o'r cwricwlwm sylfaenol gan gynnwys Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCCh).

56. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yr adolygiad yn “provides an important opportunity to consider the place of PSE, including healthy relationships, in the new curriculum for Wales as a whole”.<sup>29</sup>

### ***Tystiolaeth gan ymatebwyr***

57. Cawsom swm sylweddol o dystiolaeth a oedd yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad oedd y Bil yn darparu ar gyfer addysg ar gydberthnasau iach.

58. Dywedodd y Comisiynydd Plant ei fod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru:

“(…) to set out provisions in this Bill that provide children and young people with a comprehensive and robust framework for healthy relationships education to be included within the education curriculum, and to view the recommendations of the Education in Wales Review as opportunities to add value to such a framework.”<sup>30</sup>

59. Nododd Barnardo's Cymru ei bod wedi'i siomi nad oedd rhaglen gynhwysfawr o addysg a chamau ataliol mewn lleoliadau addysg ac yn y gymuned yn y Bil.<sup>31</sup>

60. Dywedodd yr Athro Emma Renold ei bod yn “puzzled and concerned that proposals in the White Paper to ensure that education addressing inter-personal violence and safe relationships via a mandatory whole-school approach is delivered to all children and young people, is notably absent from this Bill”.<sup>32</sup>

---

<sup>29</sup> [Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 58

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV12

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV21

61. Aeth yn ei blaen i ddweud:

“This absence is all the more urgent and concerning in light of recent research findings that pre-teen children (age 10-12) growing up in Wales report increasingly compulsory boyfriend-girlfriend cultures in which gender-based forms of conflict, coercion and control are seen by children as an inevitable component of young relationships and common place.”<sup>33</sup>

62. Roedd NSPCC Cymru o'r farn “it is going to be very difficult to deliver on the strategic and generational aims of this piece of legislation unless that question of education is actually contained within this Bill”.<sup>34</sup>

63. Adleisiodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru “it is a huge disappointment that there is a serious lack of commitment to the role of prevention education within the legislation”.<sup>35</sup>

64. Dywedodd Sdim Curo Plant wrthym “without a change in the law any educational programmes or initiatives to promote healthy relationships, reduce tolerance of abuse and interpersonal violence will be seriously undermined”.<sup>36</sup>

65. Nododd tystiolaeth Plant yng Nghymru y dylai cynigion addysg y Papur Gwyn gael eu cynnwys yn y ddyletswydd i lunio strategaethau lleol. Roedd Barnardo's yn credu “reneging on [the healthy relationships education proposal] is a serious backward step for the preventative agenda of the Bill in its entirety”.<sup>37</sup>

66. Clywsom y canlynol gan yr Eglwys yng Nghymru:

“PSE is not the only place in which attitudes to relationships, domestic and sexual abuse, potential targets of ‘hate crime’, personal abuse or bullying should be tackled. Unhelpful stereotypes and attitudes can be encountered and should be challenged in all areas of the curriculum – such as art, literature, current affairs, media, sport, history, overseas development, religious studies.

---

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV21

<sup>34</sup> CyT, paragraff 33, 17 Medi 2014

<sup>35</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV49

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV68

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV12



“Consigning the issue to PSE and consideration under a separate review fails to achieve the wider impact hoped for in our earlier response [to the White Paper], which could have brought about more thorough attitudinal change.”<sup>38</sup>

67. Fodd bynnag, nid oedd CLILC o blaid cynnwys darpariaethau addysg yn y Bil, gan ddweud “the curriculum review can help to deliver the outcomes”. Dywedodd hefyd ei bod yn “concerned that [making such provision in the Bill] might reduce flexibility, because it is not (...) easy to change legislation”.<sup>39</sup>

68. Nododd hefyd fod llawer o hyrwyddwyr i'w cael o fewn awdurdodau lleol yn barod, ac na chaiff trefniadau o'r fath eu hategu gan ddeddfwriaeth.

69. Cafwyd tystiolaeth gan nifer o dystion ynghylch yr angen i “dull ysgol gyfan” o ymdrin â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig gael ei gynnwys ar wyneb y Bil. I grynhoi, dywedodd ymatebwyr wrthym y byddai dull o'r fath yn cynnwys:

- un aelod o staff 'cyswllt' a hyfforddwyd yn llawn ym mhob ysgol sy'n arbenigo mewn trais yn erbyn menywod a merched ac sydd â'r wybodaeth a'r hyder i helpu disgyblion i gael cymorth a gwybodaeth;
- cynnwys addysg ar drais yn erbyn menywod a merched a chydberthnasau iach fel elfen orfodol o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru;
- sicrhau bod ysgolion yn casglu data rheolaidd ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys aflonyddu rhywiol a bwlio;
- sicrhau bod addysg ar drais yn erbyn menywod a merched a chydberthnasau iach ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn rhan o system addysg ffurfiol neu nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- penodi hyrwyddwr trais yn erbyn menywod a merched o blith llywodraethwyr ysgol ac aelodau cyngor ysgol;
- sicrhau bod Estyn yn arolygu ymatebion ysgolion i drais yn erbyn menywod a merched;

---

<sup>38</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV43

<sup>39</sup> CyT, paragraff 389, 1 Hydref 2014

- sicrhau bod hyfforddiant cynhwysfawr yn cael ei roi i bob gweithiwr proffesiynol cysylltiedig.

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

70. Clywsom gan yr Aelod gwreiddiol a oedd yn gyfrifol am y Bil, sef Lesley Griffiths AC, a ddywedodd na chredai “that not including education proposals on the face of the Bill will limit its scope to deliver our aims in respect of prevention”.<sup>40</sup> Fodd bynnag, roedd yn “recognise that there are concerns regarding the omission of the education proposals”.<sup>41</sup>

71. Yn fwy diweddar, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn “already taking forward a number of the proposals in the White Paper. There are proposals, for example, for an Estyn thematic inspection of issues around healthy relationships. There are other proposals that we have looked at that do not require legislation and can be acted on”.<sup>42</sup>

72. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd wedi trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog Addysg eto, ond cydnabu'r corff o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.<sup>43</sup>

### ***Ein barn ni***

73. Y peth mwyaf arwyddocaol nad yw wedi'i gynnwys yn y Bil yw'r cynigion o ran addysg ar gyberthnasau iach a geir yn y Papur Gwyn.

74. Heb yr elfen hanfodol hon, mae'n anodd gweld sut y gellir cyflawni'r newid angenrheidiol mewn agweddau i'r fath raddau sy'n ddigonol i gael effaith hirdymor ar lefelau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

75. Cytunwn â [Llawlyfr y Cenhedloedd Unedig ar gyfer deddfwriaeth ar drais yn erbyn menywod](#) mai un o'r pwyntiau mynediad mwyaf effeithiol i herio agweddau gwahaniaethol ynghylch cydraddoldeb rhywiol a thrais yn erbyn menywod yw'r system addysg. Gall rhaglenni addysg ysgol gyfan gyfrannu at y gwaith o wneud trais a stereoteipio ar sail rhyw yn llai derbyniol; beio dioddefwyr yn llai; a deall pwysigrwydd cyberthnasau iach.

---

<sup>40</sup> CyT, paragraff 17, 17 Medi 2014

<sup>41</sup> CyT, paragraff 16, 17 Medi 2014

<sup>42</sup> CyT, paragraff 21, 1 Hydref 2014

<sup>43</sup> CyT, paragraff 21, 1 Hydref 2014

76. Cydnabyddwn fod addysg ar “gydberthnasau iach” yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r cwricwlwm a arweinir gan yr Athro Graham Donaldson ar hyn o bryd. Serch hynny, credwn yn gryf y dylai'r Bil hwn ddarparu'n benodol ar gyfer addysg er mwyn cyflawni ei amcan ataliol.

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil er mwyn darparu ar gyfer rhaglenni addysg gorfodol, ysgol gyfan, sy'n briodol i oedran ar gydberthnasau iach.**

77. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, tynnwn sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth a gafwyd ynghylch yr elfennau i'w cynnwys fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan, a grynhoir ym mharagraff 69.

## 4. Plant a Phobl Ifanc

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

78. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- dylai'r Bil gyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) er mwyn sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i anghenion plant;
- dylid dileu'r amddiffyniad ynghylch cosbi plant yn rhesymol, ac mae'r Bil yn fan priodol ar gyfer y fath ddarpariaeth oherwydd ceir negeseuon anghyson ar hyn o bryd ynghylch trais i blant a rhieni;
- roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai cynnwys darpariaeth o ran yr amddiffyniad ynghylch cosbi plant yn rhesymol yn golygu na chanolbwyntiwyd ar brif ddiben y Bil.

### **Hawliau plant a phobl ifanc**

#### *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

79. Cawsom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr ynghylch diffyg cynrychiolaeth plant a phobl ifanc, ac yn benodol hawliau plant, yn y Bil.

80. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym mai ei phrif bryder oedd "the experience of children and young people are marginalised within the Bill".<sup>44</sup> Nododd:

"... the lack of synergy between legislation and policy to address domestic violence, and legislation and policy to address child protection has, historically, been a significant barrier to addressing ... family and intimate relationship problems effectively. The wording of this legislation does nothing to address this dichotomy."<sup>45</sup>

81. Dywedodd Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc wrthym fod yr ymchwil a wnaed wrth baratoi ar gyfer y Bil yn "appears

---

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV12

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV12

to have been confined to the needs of adult victims of gender violence, domestic violence and sexual violence”.<sup>46</sup> Aeth yn ei blaen i ddweud:

“Little investigation appears to have been carried out in relation to the needs of children in Wales, even though we know the impact on children is very significant, with negative developmental and long-lasting effects.”<sup>47</sup>

82. Gorffennodd drwy ddweud:

“... the Bill is lacking in the kind of provision that might be expected from a proper analysis of the evidence combined with analysis of the requirements of the UNCRC.”<sup>48</sup>

83. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill hefyd at CCUHP, gan ddweud wrthym nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer hawliau plant a dadlau bod angen cyfeiriad penodol yn y Bil, a chanllawiau atodol, at CCUHP er mwyn mynd i'r afael â hyn. Wrth sôn am y diffyg cyfeiriad at CCUHP, nododd y Comisiynydd Plant y gallai “result in the specific needs and vulnerabilities of children and young people being overlooked”.<sup>49</sup>

84. Wrth wneud sylw tebyg, cyfeiriodd Barnado's Cymru at y ddarpariaeth a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf roi "sylw dyledus" i Ran 1 o CCUHP. Dywedodd Barnado's wrthym y byddai'r Bil gryn dipyn yn gryfach petai darpariaeth o'r fath yn cael ei chynnwys ar ei wyneb.<sup>50</sup> Roedd NSPCC Cymru o'r un farn.<sup>51</sup>

85. Dywedodd Plant yng Nghymru y byddai cyfeiriad at y Confensiwn ar wyneb y Bil yn “give a clear message about the importance of the UNCRC in conjunction with the *Children and Young Persons (Wales) Measure 2011*”.<sup>52</sup>

86. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc fod yr Aseiad Effaith a gynhaliwyd o'r Bil mewn perthynas â Hawliau Plant yn “lacks adequate appreciation of the

---

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV34

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV34

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV34

<sup>49</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60

<sup>50</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV12

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV23

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV47

requirements of the UNCRC, especially with regard to child protection and rehabilitative support”.<sup>53</sup>

87. Hefyd, tanlinellodd ymatebwyr bwysigrwydd strategaethau cenedlaethol a lleol sy'n ystyried anghenion plant a phobl ifanc. Yn hyn o beth, dywedodd y Comisiynydd Plant wrthym y gallai'r ffaith na chyfeirir at CCUHP yn y Bil “may result in the specific needs and vulnerabilities of children and young people not being taken into account in the development of strategies and services”.<sup>54</sup>

88. Yn ogystal â thystiolaeth ynghylch CCUHP, dywedodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y Comisiynydd Plant a BBC Plant Mewn Angen, wrthym nad yw'r Bil yn mynd yn ddigon pell o ran darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn anuniongyrchol, er enghraifft, drwy weld aelod o'r teulu yn cael ei gam-drin.<sup>55</sup>

### ***Ein barn ni***

89. Credwn, fel y'i drafftwyd, nad yw'r Bil yn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion a natur agored i niwed benodol plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gam-drin domestig, neu sy'n dioddef hynny.

90. Cydnabyddwn fod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion Rhan 1 o CCUHP. Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai modd atgyfnerthu'r Bil drwy gynnwys cyfeiriad uniongyrchol at CCUHP ar ei wyneb. Byddai hyn yn sicrhau bod pob awdurdod perthnasol sy'n cydymffurfio â dyletswyddau o dan y Bil yn ystyried hawliau plant a phobl ifanc.

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil fel ei fod yn cyfeirio'n benodol at Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er mwyn sicrhau bod awdurdodau yn ystyried hyn wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil.**

---

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV34

<sup>54</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60 a GBV32

## Cosbi plant yn rhesymol

### *Cefndir*

91. Yn draddodiadol, mae Cyfraith Gwlad wedi cydnabod amddiffyniad "cosb resymol" mewn perthynas â rhai troseddau ymosod.

92. Mae adran 58 o [Ddeddf Plant 2004](#) (sy'n gymwys i Gymru a Lloegr) yn cyfyngu ar y defnydd o amddiffyniad cosb resymol fel nad oes modd ei ddefnyddio mwyach pan gaiff diffynnydd ei gyhuddo o'r troseddau canlynol yn erbyn plentyn:

- anafu ac achosi niwed corfforol difrifol;
- ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol;
- creulondeb yn erbyn rhywun sydd o dan 16 oed.

93. Gall y fath amddiffyniad gael ei ddefnyddio o hyd lle (i) caiff y diffynnydd ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin neu guro ac mae'r anaf a gaiff y dioddefwr yn cael ei ystyried yn ddim mwy na "reddening of the skin" a "transient and trifling"<sup>56</sup>, (ii) mae'r dioddefwr yn blentyn (o dan 18 oed) a (iii) y diffynnydd yw rhiant y plentyn neu'r unigolyn sydd â gofal cyfreithiol dros y plentyn.<sup>57</sup>

### *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

94. Nid yw'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas ag amddiffyniad cosbi plentyn yn rhesymol, ac felly ni ofynnodd ein hymgyngoriad am dystiolaeth ar hyn. Fodd bynnag, roedd mwy na thraean o'r ymatebion a ddaeth i law yn galw am 'wahardd smacio' yng Nghymru. Ni soniodd yr ymatebion eraill am hyn.

95. Ymhlith y sawl a wnaeth sôn am y mater hwn, roedd consensws cyffredinol bod methiant i gynnwys darpariaeth i ddileu'r amddiffyniad yn gyfle a gollwyd a allai danseilio bwriad y Bil yn y pen draw.

---

<sup>56</sup> Gwasanaeth Erllyn y Goron, [Guidance on Prosecuting Cases of Domestic Violence](#)

<sup>57</sup> Dylid nodi bod y gyfraith wedi datblygu yn y maes hwn mewn blynyddoedd diweddar. Ni chaiff rhai categorïau o unigolion sy'n gofalu am blentyn yn gyfreithiol ddefnyddio'r amddiffyniad hwn mwyach. Yn eu plith mae gofalwyr maeth, gweithwyr mewn cartrefi plant ac athrawon (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

96. Yn hyn o beth, awgrymodd Plant yng Nghymru fod parhau ag amddiffyniad cosb resymol yn "gwanhau" bwriad y Bil ac yn "peryglu" ei weithredu'n llwyddiannus.<sup>58</sup>

97. Yn yr un modd, nododd Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc:

“While there remains lesser protection for children than adults under the criminal law, attempts to ensure consistency of approach in both prevention and protection from violence and abuse are undermined.”<sup>59</sup>

98. Aeth ymlaen i ddweud y byddai cynnwys darpariaeth yn y Bil i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn “remove an impediment to its effective implementation in practice”<sup>60</sup>.

99. Dywedodd Sdim Curo Plant fod methiant y Bil i gynnwys darpariaeth i ddileu'r amddiffyniad yn "hepgoriad allweddol". Awgrymodd fod gwahardd a dileu achosion o gosbi plant yn gorfforol yn brif fesur ataliol ar gyfer trechu cam-drin domestig a thrais rhyngpersonol.<sup>61</sup> Nododd:

“Without addressing the issue of inequality in protection from assault that currently exists and going to the root of the problem, Wales cannot hope to tackle domestic abuse, gender-based violence and sexual violence effectively.”<sup>62</sup>

100. Gwnaeth y Comisiynydd Plant bwynt tebyg, gan nodi:

“There is significant evidence which points to the ‘reasonable punishment’ or smacking of children leading to an escalation of violence against children and young people and that smacking, as an act of violence however light, should be considered as domestic abuse.”

101. Tynnodd sylw at dystiolaeth a roddwyd ganddo yn 2013 i Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad lle

---

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV47

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV34

<sup>60</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV34

<sup>61</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV68

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV68



dywedodd “Welsh Government should take the earliest legislative opportunity to prohibit the smacking of children in Wales.”<sup>63</sup>

102. Un o'r prif ddadleuon a wnaed dros ddileu amddiffyniad cosb resymol oedd y ffaith bod diogelu rhywun rhag ymosodiad yn hawl dynol cyffredinol a ddylai fod yn gymwys i bawb, waeth beth fo'u hoedran. Yn fwy penodol, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru ddileu'r amddiffyniad er mwyn cyflawni ei hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthygl 19 (Diogelwch rhag pob math o drais). Cyfeiriwyd at y pwysau parhaus ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan gyrrff hawliau dynol rhyngwladol i ymdrin â'r mater hwn.

103. Wrth sôn am y mater uchod, dywedodd Sdim Curo Plant:

“Removing the defence, and thus giving children equal protection under the law on assault is an immediate obligation under the UNCRC and other human rights instruments accepted by the UK Government. Removal has been recommended repeatedly to the UK Government by UN human rights monitoring bodies.

“The vulnerability of children makes it even more vital that the law protects them, making the existing anomaly of giving them less legal protection both disturbing and absurd.”<sup>64</sup>

104. Awgrymodd NSPCC Cymru fod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn “places an obligation on the Welsh Government to close the rights violation represented by the defence (...) at the earliest opportunity”. Credai fod y Bil yn gyfle i wneud hyn.<sup>65</sup>

105. Tanlinellodd nifer o ymatebwyr fod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddileu amddiffyniad cosb resymol ers dros ddegawd. Yn hyn o beth, dywedodd Sdim Curo Plant:

“The clear promise was made to the UN Committee on the Rights of the Child that this would happen in Wales (...) It is also a clear promise to children and young people in Wales, which is included in the Welsh Government’s ‘Getting it Right’ action plan from 2009. So, any argument that it is not in the manifesto and

---

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60

<sup>64</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV68

<sup>65</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV23

that the Welsh Government does not have the mandate for it, is extraordinary.”<sup>66</sup>

106. Mewn perthynas â'r uchod, cyfeiriodd Chwarae Cymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc ac eraill at y sylwadau a wnaed gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Mewn ymateb i'r ddadl ar ddiwygio Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ddileu'r amddiffyniad, dywedodd y Dirprwy Weinidog “there will be other legislative opportunities in the future that will be more appropriate for effecting a ban on the physical punishment of children”, a “there will be opportunities to examine this issue in forthcoming legislation in this Assembly”.<sup>67</sup>

107. Ymhlith y dadleuon eraill a gyflwynwyd dros ddileu'r amddiffyniad roedd:

- effeithiau iechyd negyddol cosb gorfforol ar blant, gan gynnwys mwy o ymddygiad ymosodol, pryder ac iselder;
- y tebygolrwydd bod cosbi plant yn rhesymol (neu eu smacio) yn arwain at fwy o drais yn erbyn plant a phobl ifanc;
- Y cysylltiad rhwng cosb gorfforol fel plentyn a bod yn dreisgar tuag at bartneriaid yn hwyrach mewn bywyd;
- y negeseuon cymysg y mae rhieni yn eu cael ar hyn o bryd ynghylch dilysrwydd brifo eu plant;
- y cyfle y byddai'n ei gynnig i alluogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd i gyfleu negeseuon clir nad yw bwrw na brifo plant yn iawn.

108. Er y cefnogwyd egwyddor dileu'r amddiffyniad, cwestiynodd rhai ymatebwyr ai'r Bil oedd y dull mwyaf priodol o gyflawni'r nod hwnnw. Mynegwyd pryder y byddai cynnwys darpariaeth i ddileu'r amddiffyniad yn golygu na chanolbwyntiwyd ar brif ddiben y Bil.

109. Roedd Llamau o'r farn ei bod yn bwysig osgoi ystyried y Bil yn gyfle i "solve all ills". Pwysleisiodd yr angen am “clarity of purpose” a mynegodd bryder, petai'r Bil yn cynnwys darpariaeth i ddileu'r

---

<sup>66</sup> CyT, paragraff 70, 17 Medi 2014

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, [11 Chwefror 2014](#)

amddiffyniad, y gallai “take it off on a tangent” a “dilute the message”.<sup>68</sup>

110. Gofynnodd Ymddiriedolaeth y Goroeswyr a fyddai dileu'r amddiffyniad yn "given justice within this Bill" petai'n cael ei gynnwys ar gam hwyrach.<sup>69</sup> Ymhelaethodd:

“To both strengthen the understanding within our communities and the understanding of the parents that do smack their children that they need to stop, we need to give this the force that it needs. I do not think that you would do either justice by [including it in the Bill].”<sup>70</sup>

111. Yn yr un modd, roedd Cymru Ddiogelach o'r farn bod angen i unrhyw gynnig i ddileu'r amddiffyniad drwy'r Bil gael “full consideration and exploration by all parties and consultation again”. Mynegodd bryder y byddai hyn yn “create a delay when it will not necessarily give an advantage, because it may need to be looked at separately in its own right within safeguarding”.<sup>71</sup>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

112. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn gyfrwng priodol i ddiwygio Deddf 2004 er mwyn dileu amddiffyniad cosb resymol. Nododd:

“The Bill focuses on gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. We would not consider that ‘reasonable chastisement’ falls into these categories.”<sup>72</sup>

113. Pan ofynnwyd a fyddai cyfle deddfwriaethol arall yn y Cynulliad cyfredol i ddileu'r amddiffyniad, dywedodd y Gweinidog “the Government has never given a commitment to make that change”,<sup>73</sup> a “[it does] not have a manifesto commitment in this area”.<sup>74</sup> Aeth ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru yn “regard this as an issue more appropriate to manifestos in the election in 2016”.<sup>75</sup>

---

<sup>68</sup> CyT, paragraffau 229 a 235, 25 Medi 2014

<sup>69</sup> CyT, paragraff 230, 25 Medi 2014

<sup>70</sup> CyT, paragraff 230, 25 Medi 2014

<sup>71</sup> CyT, paragraff 231, 25 Medi 2014

<sup>72</sup> CyT, paragraff 46, 1 Hydref 2014

<sup>73</sup> CyT, paragraff 39, 1 Hydref 2014

<sup>74</sup> CyT, paragraff 41, 1 Hydref 2014

<sup>75</sup> CyT, paragraff 49, 1 Hydref 2014

114. O ran [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#), dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth wedi “carried out its obligation” i ystyried CCUHP wrth ddatblygu deddfwriaeth.<sup>76</sup>

### ***Ein barn ni***

115. Rydym wedi ystyried y mater hwn yn ofalus iawn, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonom (chwe Aelod) yn credu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn darparu ar gyfer dileu amddiffyniad cosbi plant yn rhesymol.

116. Mae lleiafrif ohonom (pedwar Aelod) yn anghytuno oherwydd credwn fod yr amddiffyniad sydd ynghlwm wrth gosbi plant yn rhesymol gan eu rhieni neu unigolion eraill sydd â gofal cyfreithlon drostynt yn gyfystyr ag anghysondeb cyfreithiol. Er y gellir dibynnu ar yr amddiffyniad o hyd mewn achosion o ymosodiad cyffredin neu guro, nid yw bellach ar gael mewn achosion mwy difrifol o ymosod (a restrir ym mharagraff 92). At hynny, mae lleiafrif ohonom yn credu bod argaeledd parhaus yr amddiffyniad yn gwanhau'r egwyddor bod trais a gyflawnir gan un person yn erbyn un arall yn annerbyniol, ac yn tanseilio ymdrechion i drechu trais a cham-drin domestig.

117. Er ein bod yn nodi bod yr amddiffyniad hwn wedi cael ei drafod yn helaeth yn y Cynulliad ers sawl blwyddyn, a bod Gweinidogion blaenorol wedi gwneud eu priod sefyllfaedd yn glir, credwn y dylai'r Gweinidog achub ar y cyfle i egluro sefyllfa Llywodraeth bresennol Cymru yn hyn o beth.

### **Argymhellwn fod y Gweinidog yn egluro sefyllfa bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu amddiffyniad cosbi plentyn yn rhesymol.**

118. Yn ein barn ni, dylai unrhyw Fil i newid y gyfraith yn y dyfodol fynd law yn llaw ag ymgynghoriad priodol a rhaglen codi ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y newidiadau'n llawn, y rhesymau drostynt ac effaith newidiadau o'r fath arnynt.

---

<sup>76</sup> CyT, paragraff 43, 1 Hydref 2014

## 5. Strategaethau Cenedlaethol a Lleol

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

119. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- mae angen i'r strategaeth genedlaethol wella ar y strategaeth bresennol, sef Yr Hawl i fod yn Ddiogel, *yn hytrach na dim ond cynnwys polisi cyfredol*;
- dylai fod dyletswydd i ymgynghori â'r heddlu, darparwyr gwasanaeth a dioddefwyr wrth ddylunio a gweithredu'r strategaethau;
- dylai'r strategaeth genedlaethol bennu safonau gofynnol ar gyfer y strategaethau lleol er mwyn sicrhau cysondeb;
- maent yn pryderu y caiff strategaethau cenedlaethol a lleol eu llunio ar wahân, a allai arwain at ddyblygu ymdrech a data.

### *Cefndir*

120. Mae adrannau 2 a 3 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi, adolygu a gweithredu strategaeth genedlaethol, sy'n nodi amcanion, amserlenni a champau gweithredu arfaethedig a fydd yn cyfrannu at ddiben y Bil.

121. Mae adrannau 4 a 5 o'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyd-baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaethau lleol, sy'n nodi amcanion, amserlenni a champau gweithredu arfaethedig a fydd yn cyfrannu at gyflawni diben y Bil.

122. Gall strategaeth leol hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod cyhoeddus, sefydliad gwirfoddol neu unigolyn arall y gall eu gweithgareddau gyfrannu at ddiben y Bil, gymryd camau penodol, yn amodol ar gymeradwyaeth y sefydliad ymlaen llaw.

123. Cafodd [Yr Hawl i fod yn Ddiogel](#), sef strategaeth chwe blynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, ei chyflwyno yn 2010.

### *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

124. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at strategaeth statudol *Yr Hawl i fod yn Ddiogel*, gan ddadlau y dylai unrhyw strategaeth genedlaethol

newydd gael ei pharatoi yng nghyd-destun yr un bresennol hon. Galwyd am eglurder o ran statws strategaethau presennol.

125. Hefyd, tynnodd ymatebwyr sylw at ddiffygion yn strategaeth *Yr Hawl i fod yn Ddiogel*, gan nodi ei bod yn “vital that Welsh Government build upon, rather than re-invent, the current national strategy”.<sup>77</sup>

126. Dywedodd ymatebwyr, gan gynnwys Llwybrau Newydd a Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, wrthym fod y strategaeth bresennol yn dioddef “lack of measurable outcomes”.<sup>78</sup> Awgrymodd Llwybrau Newydd y dylai “consideration be given to either separate strategies for the different forms of violence, or at least an allowance for individual emphasis to be placed on the different forms of violence.”<sup>79</sup>

127. Dywedodd ManKind wrthym y dylai'r strategaethau cenedlaethol a lleol “fully recognise male victims of domestic abuse and sexual violence and that the strategies [should] explicitly address the needs of male victims. This also includes service commissioning, staff training and awareness raising”.<sup>80</sup> Awgrymodd is-strategaeth gyfochrog i ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd er mwyn sicrhau bod y strategaethau yn “recognise the existence of male victims and their children and treat them as individuals in need in the same way female victims rightly are”.<sup>81</sup>

128. Hefyd, tanlinellodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y strategaeth genedlaethol yn pennu safonau gofynnol ar gyfer y strategaethau lleol er mwyn sicrhau cysondeb. Ar y pwynt hwn, nododd y Comisiynydd Plant:

“I would expect Welsh Government to set out within the provisions of this Bill a minimum schedule of content that is required within the publication of national and local strategies.”<sup>82</sup>

---

<sup>77</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV64

<sup>78</sup> Written evidence, GBV64

<sup>79</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV64

<sup>80</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV14

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV14

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60

129. Roedd Ymddiriedolaeth y Goroeswyr o blaid safon ofynnol, gan ddweud y dylai safon o'r fath ddod "from a victim's perspective and a victim's rights point of view".<sup>83</sup>

130. Cafwyd tystiolaeth yn galw ar yr heddlu, dioddefwyr a darparwyr gwasanaeth i chwarae rhan yn y broses ymgynghori, dylunio a gweithredu ar gyfer y strategaethau. Yn hyn o beth, dywedodd Llwybrau Newydd wrthym:

"...successful implementation of this Bill will require collaboration and consultation with the third sector, who currently undertake most of the service provision in this field."<sup>84</sup>

131. Dywedodd Ymddiriedolaeth y Goroeswyr, o ran trais rhywiol yn benodol:

"...the majority of the work happens in the third sector, as it does for the other areas covered within this Bill. So, there has to be a duty for consultation with the third sector in these strategies to bring them to life."<sup>85</sup>

132. Soniodd y Comisiynydd Plant a Barnado's Cymru am bwysigrwydd sicrhau bod y Bil yn gwneud darpariaeth benodol i blant a phobl ifanc allu cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a dylunio strategaethau lleol a chenedlaethol ac, felly, leisio eu barn ar weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant".<sup>86</sup>

133. Tanlinellodd rhai ymatebwyr yr angen i'r gydberthynas rhwng y strategaethau cenedlaethol a lleol fod yn glir er mwyn osgoi "dyblygu ymdrech". Ar y pwynt hwn, dywedodd Yr Athro Jonathan Sheperd wrthym:

"It is not clear, for example, whether local strategies need to be consistent with the new national strategy. As drafted, the bill refers to local strategy setting "having regard" to the national strategy; such a statement seems unlikely to be strong enough."<sup>87</sup>

---

<sup>83</sup> CyT, paragraff 283, 25 Medi 2014

<sup>84</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV64

<sup>85</sup> CyT, paragraff 311, 25 Medi 2014

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV60 a GBV12

<sup>87</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV03

134. Awgrymodd efallai nad oedd angen strategaethau lleol; yn hytrach gallai fod dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol.

135. Dywedodd yr Athro Shepherd “there needs to be really strong oversight of the development of local strategies to make sure that they do not vary from the national ways forward”.<sup>88</sup>

136. Aeth ymlaen i ddweud y dylai unrhyw amrywiadau yn y strategaethau lleol fod yn seiliedig ar “consultation and quality checks that what is being added or subtracted locally is consistent with the evidence and fully consistent with the specific strategy”.<sup>89</sup>

137. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Llamau a'r Athro Shepherd, at yr angen am strategaeth genedlaethol i ganolbwyntio ar ymyriadau penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyfeirio atynt. Ar y pwynt hwn, dywedodd Llamau:

“The process of gathering evidence and assessing needs on a national and a local basis will be fundamental to whether the relevant authorities covered under this legislation are able to make a real change to the way that they work to combat this issue.”<sup>90</sup>

138. Hefyd, cawsom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr ynghylch yr angen am strategaethau lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyson, ond hefyd gan ystyried anghenion lleol. Ar y pwynt hwn, dywedodd Llwybrau Newydd:

“Having a national strategy without local strategies would not take into account local need and local differences, which we all acknowledge are there.”<sup>91</sup>

139. Roedd rhai ymatebwyr o blaid penodi swyddog arweiniol a fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r strategaethau. Dywedodd Cydgysylltwyr Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru:

“Consideration should be given to who will determine the content of these strategies and who the lead agency will be (...) Currently much of this work is carried out by existing DA Co-ordinators. Continuing to work in this way would be cost

---

<sup>88</sup> CyT, paragraff 276, 17 Medi 2014

<sup>89</sup> CyT, paragraff 276, 17 Medi 2014

<sup>90</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV45

<sup>91</sup> CyT, paragraff 437, 1 Hyd 2014



effective and would avoid the need for recruitment of new/additional staff.”<sup>92</sup>

140. Yn hyn o beth, dywedodd Llamau “the placement of a local strategy within the Single Integrated Planning Process raises additional questions around who has ownership of a local strategy and who would be ultimately responsible for the delivery of the strategy”.<sup>93</sup>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

141. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r strategaeth genedlaethol yn adeiladu ar strategaeth bresennol *Yr Hawl i fod yn Ddiogel*, ac y byddai “opportunities within that to ensure that the local strategies developed subsequently are compatible with, build on, and supplement the national strategy”.<sup>94</sup>

142. Dywedodd y byddai ganddo “some minimum expectations (...) of what a local strategy might include” ac y byddai angen i ddisgwyliadau o'r fath “be conveyed to those involved in the drafting of local strategies early on.”<sup>95</sup> Dywedodd wrthym:

“If we felt that the strategy did not conform with the way that we believe that that strategy should be taken forward, then we would have a role in making that clear to those drawing up the strategy.”<sup>96</sup>

143. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“... in drawing up their own local strategies, [authorities] must have due regard to the national strategy. The ministerial adviser, of course, will have a very key role, potentially, in also ensuring that those local strategies are appropriate.”<sup>97</sup>

144. Mewn perthynas ag ymgynghori, dywedodd y Gweinidog:

“... the local strategy will need to be agreed by a number of different agencies, and it would be sensible, of course, for local authorities and local health boards to talk together, but they

---

<sup>92</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV27

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV45

<sup>94</sup> CyT, paragraff 80, 1 Hydref 2014

<sup>95</sup> CyT, paragraff 91, 1 Hydref 2014

<sup>96</sup> CyT, paragraff 91, 1 Hydref 2014

<sup>97</sup> CyT, paragraff 99, 1 Hydref 2014

will also need to talk to organisations such as the police and others.”<sup>98</sup>

### ***Ein barn ni***

145. Cefnogwn y cam i ddarparu ar gyfer strategaethau cenedlaethol a lleol statudol, a chredwn y bydd hyn yn atgyfnerthu trefniadau sy'n bodoli eisoes.

146. Cytunwn ag ymatebwyr, er mwyn osgoi dyblygu rhwng y strategaethau cenedlaethol a lleol, fod angen gwahaniaethu rhyngddynt yn glir. Hefyd, cytunwn fod angen safonau gofynnol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd gyson.

147. Yn ein barn ni, mae angen mwy o eglurder mewn perthynas â'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer strategaethau lleol, gan gynnwys rôl y Cynghorydd Gweinidogol wrth oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau lleol.

148. Credwn y byddai'r Bil yn cael ei atgyfnerthu pe byddai dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ymgynghori â darparwyr gwasanaeth, yr heddlu a dioddefwyr wrth lunio strategaethau cenedlaethol a lleol.

149. Hefyd, credwn y byddai'r Bil yn cael ei atgyfnerthu drwy gynnwys darpariaeth ar gyfer swyddog arweiniol o fewn pob awdurdod lleol a fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth leol yn cael ei chyflawni.

### **Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil er mwyn darparu ar gyfer y canlynol:**

- **bod y strategaeth genedlaethol yn cynnwys cyfres o ofynion sylfaenol ar gyfer dylunio, gweithredu a monitro strategaethau lleol;**
- **bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ymgynghori â darparwyr gwasanaeth, yr heddlu, dioddefwyr ac unrhyw grwpiau perthnasol eraill wrth ddylunio'r strategaethau cenedlaethol a lleol;**

---

<sup>98</sup> CyT, paragraff 105, 1 Hydref 2014

- **bod swyddog arweiniol yn cael ei benodi o fewn pob awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir y strategaeth leol.**

## 6. Mesurau perfformiad a chanllawiau

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

150. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- maent yn pryderu am y 'cymal eithrio' yn adran 14, a hoffent gael egluder ynghylch yr hyn a fyddai'n 'rheswm da' dros beidio â dilyn y canllawiau;
- roeddent o blaid cyflwyno dangosyddion perfformiad gan mai dyma oedd un o'r prif bethau a feirniadwyd yn strategaeth *Yr Hawl i fod yn Ddiogel*;
- roeddent o blaid y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (a amlinellir mewn canllawiau ond nad yw ar wyneb y Bil), ond awgrymwyd y dylai fynd ymhellach na chyflogeion y sector cyhoeddus a chynnwys darparwyr gwasanaeth a chontractwyr.

### *Cefndir*

151. Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion perfformiad ("dangosyddion cenedlaethol") er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Bil. Cyn cyhoeddi'r dangosyddion, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw unigolion sy'n briodol yn eu barn hwy.

152. Mae adran 12 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi arweiniad i awdurdod perthnasol ar sut y dylai gyflawni ei swyddogaethau gyda'r nod o gyfrannu at ddiben y Bil. Gall y fath arweiniad gynnwys camau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i aelodau a staff yr awdurdod.

153. Mae adrannau 14 i 16 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol ddilyn canllawiau statudol, oni fydd yr awdurdod o'r farn bod rheswm da dros beidio â'u dilyn a'i fod yn penderfynu ar bolisi amgen (sef y ddarpariaeth 'eithrio'). Yn y sefyllfa hon, rhaid i ddatganiad polisi nodi sut mae'r awdurdod yn cynnig y bydd ei bolisi amgen yn gweithredu a'i resymau dros fabwysiadu'r polisi amgen.

154. Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw polisi amgen yr awdurdod yn debygol o gyfrannu at ddiben y Bil, gallant ei gyfarwyddo i gymryd camau priodol. Rhaid i'r awdurdod wneud hyn.

## *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

### **Dangosyddion cenedlaethol**

155. Roedd cefnogaeth eang ymhlith ymatebwyr i gyflwyno dangosyddion cenedlaethol ac roedd disgwyliad cryf y dylent gael eu datblygu drwy ymgynghoriad sylweddol ac ystyrlon â rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaeth.

156. Roedd consensws cyffredinol y dylai'r dangosyddion gynnwys canlyniadau ar gyfer camau ataliol, amddiffyn a darparu cymorth, gan gynnwys yr hyn sydd ar gael i blant a phobl ifanc a chan wasanaethau rhyw-benodol arbenigol.

157. Wrth sôn am y cynnig ar gyfer dangosyddion cenedlaethol, awgrymodd Cymorth i Fenywod Cymru y byddai'n fwy effeithiol datblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol, a fyddai'n cynnwys canlyniadau ar gyfer “prevention, for protection and for provision of support across every part of Wales”.<sup>99</sup> Credai, unwaith y byddai'r fframwaith wedi'i sefydlu, “the indicators should fall quite naturally [from it]”.<sup>100</sup>

158. Mynegodd Cymorth i Fenywod Cymru bryder nad oedd rhai o'r dangosyddion yn y canllawiau drafft yn “really show a very helpful way of creating positive change”, ac nad oedd y dangosyddion arfaethedig yn “expansive enough”.<sup>101</sup>

159. Credai NSPCC Cymru “a robust outcomes framework will be fundamental to the achievement of the aims of the Bill” a thanlinellodd fod angen i'r dangosyddion fod wedi'u “underpinned by the UNCRC”.<sup>102</sup>

160. Hefyd, nododd:

“We would also urge that the indicators and outcomes (...) align with other Outcomes Frameworks being developed by the Welsh Government, particularly under the Social Services and Wellbeing Act, the Together for Mental Health outcomes and

---

<sup>99</sup> CyT, paragraff 100, 25 Medi 2014

<sup>100</sup> CyT, paragraff 129, 25 Medi

<sup>101</sup> CyT, paragraff 129, 25 Medi

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV23

the joint Families First, Flying Start and Communities First outcomes.”<sup>103</sup>

161. Cafwyd barn debyg gan Barnado's Cymru.

### **Canllawiau statudol**

162. Er mai ychydig iawn o ymatebwyr a soniodd am y ddarpariaethau mewn perthynas â chanllawiau statudol, gwnaeth nifer sylweddol sylwadau manwl am gynnwys arfaethedig y canllawiau, yn enwedig y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

163. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol y byddai'r canllawiau statudol yn hanfodol i weithredu prif gynigion y Bil.

164. Awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys yr NSPCC a Plant yng Nghymru, y dylai adran 12 gael ei hatgyfnerthu er mwyn rhagnodi'r materion i'w cynnwys mewn canllawiau yn hytrach na gadael y cynnwys i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru.

165. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am y ddarpariaeth a fyddai'n galluogi awdurdodau i beidio â dilyn y canllawiau, yn arbennig o dan ba amgylchiadau y gellid ei rhoi ar waith, neu gofynnwyd am eglurhad yn ei chylch. Wrth sôn am y ddarpariaeth hon, dywedodd yr NSPCC “[it] seems to run against the general tenor of the legislation, which is about promoting a coherent and consistent approach at a local and national level”.<sup>104</sup>

166. Mynegodd Hafan Cymru bryderon y byddai awdurdodau yn gallu “opt-out of providing certain services”.<sup>105</sup> Nododd:

“We are concerned that this is likely to result in the continuation of a postcode lottery for services across Wales, further enshrining the current inadequate provision, and would also impact negatively on the provision of gender specific services, resulting in generic and non-specialist services being disproportionately developed across Wales.”<sup>106</sup>

167. Yn gysylltiedig â'r uchod, mynegodd Bawso bryderon penodol am oblygiadau'r ddarpariaeth eithrio i fenywod sy'n dianc rhag trais

---

<sup>103</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV23

<sup>104</sup> CyT, paragraff 128, 17 Medi 2014

<sup>105</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV38

<sup>106</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV38

domestig heb fod unrhyw arian cyhoeddus ar gael. Nododd fod sicrhau cymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer y menywod hyn bob amser yn her a chredai y byddai'r ddarpariaeth yn gwaethygu'r sefyllfa.<sup>107</sup>

168. Awgrymodd yr NSPCC y byddai'r term "rheswm da", os na châi ei ddiffinio, yn agored i ddehongliad eang. Rhannwyd y farn hon gan yr Athro Jones a wnaeth hefyd awgrymu y gallai hyn arwain at her gyfreithiol.

169. I'r gwrthwyneb, roedd CLILC yn croesawu'r ddarpariaeth a nododd:

“Local authorities are best placed to understand local priorities and issues and how these can best be addressed locally which may not clearly fit with the approach [the Welsh Government is] proposing through the Statutory Guidance.”<sup>108</sup>

170. Hefyd, pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod y broses o gymeradwyo datganiad polisi amgen gan Weinidogion Cymru yn “proportionate, speedy and non-bureaucratic”.<sup>109</sup>

171. Cafwyd cefnogaeth eang i'r cynnig i ymdrin â hyfforddiant o fewn y canllawiau statudol. Byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae dogfen ymgynghori sy'n cynnwys y [Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol drafft](#) wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil.

172. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai hyfforddiant fod ar gael i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus heblaw am yr hyn a nodir yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol drafft. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill yr angen i'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fod yn gymwys i ddarparwyr gwasanaeth arbenigol.

173. Wrth sôn am yr uchod, awgrymodd NUS Cymru “medical students, student nurses and student dentists should be trained to recognise signs of [violence against women] and how to respond appropriately”. Aeth ymlaen i awgrymu y dylai arbenigwyr yn y trydydd sector;

---

<sup>107</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV52

<sup>108</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV81

<sup>109</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV81

athrawon, cynghorwyr a staff lles mewn ysgolion, tiwtoriaid a darlithwyr; a gwarchodwyr plant gael hyfforddiant hefyd.<sup>110</sup>

174. Ar nodyn tebyg, nododd yr Eglwys yng Nghymru:

“It is of vital importance that non-statutory organisations and staff are given access to information and training in the same way as the statutory sector. Services are increasingly being contracted-out to the voluntary and even private sectors, and innovative services are typically introduced by the voluntary sector, usually funded by charitable trusts or other independent sources.”<sup>111</sup>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

175. Wrth sôn am y dangosyddion cenedlaethol, nododd y Gweinidog a oedd wrth y llyw ar y pryd, sef Lesley Griffiths AC:

“[the indicators] will be used to measure progress in achieving the purposes of the Bill. They will enable us to measure the outcomes not only through the national strategy, but through the local strategies, too.

“The basis for this will be the current programme for government indicators that we have, which relate to gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. They are now reviewed and updated on an annual basis. For instance, you could record the number of people who use the multi-agency risk assessment conference as an indicator, or the number of public sector bodies that have a workplace policy in place.”<sup>112</sup>

176. Cadarnhaodd y byddai ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth, ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu'r dangosyddion.

177. Wrth gyfeirio at y ddarpariaeth "eithrio", nododd y Gweinidog:

“[Relevant authorities] can only depart from the guidance if they are able to propose an alternative and if they have a very good reason not to follow it. For example, they might already

---

<sup>110</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV54

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV43

<sup>112</sup> CyT, paragraff 59, 17 Gorffennaf 2014



have (...) an effective multi-agency structure in place and it would be counterproductive to dismantle that to adhere to our collaboration guidance, strictly. However, we would need to be satisfied that the model would work before we would agree to it."<sup>113</sup>

178. Yn olaf, mewn perthynas â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, cadarnhaodd ei fod yn croesawu sylwadau ynghylch sicrhau bod yr hyfforddiant ar gael y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, ac y byddai'n ystyried unrhyw sylwadau o'r fath a fyddai'n dod i law fel rhan o'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft.<sup>114</sup>

### ***Ein barn ni***

179. Croesawn y gofyniad yn adran 8 i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion priodol ar y dangosyddion perfformiad cenedlaethol. Credwn ei bod yn hanfodol i randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth, chwarae rhan ar gamau cynnar y gwaith o ddylunio a datblygu'r dangosyddion. Tynnwn sylw'r Gweinidog at yr awgrym a gafwyd mewn tystiolaeth i fframwaith canlyniadau gael ei ddatblygu, sy'n ystyried fframweithiau eraill o'r fath a ddefnyddiwyd wrth gyflawni meysydd polisi cysylltiedig.

180. Nodwn fod y Papur Gwyn yn cynnig gosod dyletswyddau ar gyrff perthnasol i gyfrannu at fforymau aml-asiantaethol, datblygu protocolau rhannu gwybodaeth a gosod dyletswydd ar weithwyr proffesiynol allweddol yn y sector cyhoeddus i "Holi a Gweithredu". Fodd bynnag, caiff y cynigion hyn eu cynnwys bellach mewn canllawiau a all gael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

181. Er ein bod yn croesawu'r canllawiau drafft a ddarparwyd gan y Gweinidog eisoes, rydym yn pryderu na chafodd mesurau codi ymwybyddiaeth eu cynnwys, a bod diffyg eglurder ynghylch yr awdurdodau i'w cynnwys.

182. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai adran 14(2) gael ei defnyddio gan awdurdodau lleol i ddewis peidio â darparu gwasanaethau. Felly, ceisiwn sicrwydd gan y Gweinidog y bwriedir i'r ddarpariaeth hon gynnal strwythurau effeithiol presennol neu ganiatáu hyblygrwydd o ran arloesedd lleol.

---

<sup>113</sup> CyT, paragraff 133, 1 Hydref 2014

<sup>114</sup> CyT, paragraff 137 a 139, 1 Hydref 2014

183. Croesawn y fframwaith hyfforddi. Cytunwn ag ymatebwyr fod angen hyfforddiant cyson o ansawdd er mwyn ennyn hyder gweithwyr rheng flaen proffesiynol i ofyn am achosion o gam-drin a gweithredu arnynt. Dylai hyfforddiant fod ar gael i ddarparwyr gwasanaethau sector cyhoeddus ac arbenigol, a dylai camau o'r fath gyfrannu at y gwaith o wella safon gyson o ddarpariaeth gwasanaeth i ddioddefwyr.

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn sicrhau bod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gael i ddarparwyr gwasanaeth arbenigol yn ogystal â staff y sector cyhoeddus.**

## 7. Cynghorydd Gweinidogol

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

184. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- dylid penodi cynghorydd neu gomisiynydd annibynnol, a all graffu ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol;
- dylai'r rôl hon gynnwys pwerau i gosbi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol am beidio â gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol;
- gallai pwerau'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth a'r Cynghorydd orgyffwrdd;
- maent yn pryderu fod y rôl yn rhy eang ac nad oes iddi ddigon o adnoddau i fod yn effeithiol.

### *Cefndir*

185. Mae Adran 17 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Gweinidogol ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rôl gynghori statudol yw hon a bydd y Cynghorydd Gweinidogol yn cydweithio â'r Llywodraeth er mwyn cynghori a chynorthwyo Gweinidogion Cymru ar sut i drechu'r materion hyn. Rhydd adran 18 swyddogaethau'r Cynghorydd.

186. Yn y Papur Gwyn, cynigiodd Llywodraeth Cymru y byddai gan y Cynghorydd ddwy ffordd o sicrhau y gall ategu ei awdurdod a sicrhau y glynir wrth y ddeddfwriaeth, sef:

- y pŵer i fynnu gwybodaeth a chynnal ymchwiliadau yn erbyn safonau ansawdd cytûn;
- gweithredu fel cyfrannwr allweddol at benderfyniadau a wneir ar ddefnyddio neu ddyrannu cyllid/adnoddau drwy ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru (h.y. darparu gwybodaeth am berfformiad i lywio penderfyniadau ariannu yn y dyfodol).

### *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

187. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth yn galw am gy nghorydd neu gomisiynydd annibynnol â phwerau cryfach i graffu ar Lywodraeth

Cymru ac awdurdodau lleol. Dywedodd yr Athro Jackie Jones ei bod yn “absolutely crucial to have someone who is independent”.<sup>115</sup>

188. Hefyd, gwnaeth nifer fawr o ymatebwyr gyfeirio at fodolau tebyg yng Nghymru o ran rôl cynghorydd annibynnol, gan gynnwys Comisiynydd arfaethedig Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant Cymru ac roeddent o'r farn, drwy beidio â phenodi comisiynydd, nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o flaenoriaeth i drais ar sail rhywedd.

189. Yn arbennig, dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched Cymru:

“... we fear that a Ministerial Adviser may not have the same impact as a Commissioner.”<sup>116</sup>

190. Er i lawer o ymatebwyr, gan gynnwys Fforwm Menywod Gogledd Caerdydd, Bawso a Barnado's Cymru, nodi costau uchel penodi Comisiynydd, roeddent yn dal i gredu mai dim ond “by an independent commissioner role, which can hold government and other Welsh institutions to account” y gellid llywio'r gwaith.<sup>117</sup>

191. Ar y cyfan, roedd CLILC o blaid rôl Cynghorydd Gweinidogol yn hytrach na chomisiynydd. Ailadroddodd yr angen i'r Cynghorydd fod yn annibynnol a meddu ar yr “ability and freedom to work across all relevant policy portfolios within Welsh Government and across public services” a dywedodd y dylai'r Bil “be explicit about the independence of the Adviser post”.<sup>118</sup>

192. Dywedodd nifer o ymatebwyr wrthym fod rôl Cynghorydd Gweinidogol yn rhy eang ei chwmpas ac nad oedd digon o adnoddau i fod yn effeithiol.

193. Yn hyn o beth, dywedodd Barnardo's nad oedd gan y cynghorydd ddigon o bwerau “considering the seriousness of the issues that are expected to be addressed”.<sup>119</sup> Roedd yr Athro Shepherd yn cytuno a

---

<sup>115</sup> CyT, paragraff 345, 17 Medi 2014

<sup>116</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV 25

<sup>117</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV 12

<sup>118</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV 81

<sup>119</sup> CyT, paragraff 101, 17 Medi 2014

“limitation of the responsibilities of the advisor (...) seems very likely to reduce the potential effectiveness of this role.”<sup>120</sup>

194. Dadleuodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymru Ddiogelach, y dylai rôl y Cynghorydd Gweinidogol gynnwys pwerau i gosbi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol am beidio â gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol. Ar y pwynt hwn, dywedodd Hafan Cymru:

“It is key that there is ‘teeth’ to this legislation and that sanctions need to be available to apply to those who do not comply with the law.”<sup>121</sup>

195. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai pwerau'r Cynghorydd Gweinidogol orgyffwrdd â rhai rolau eraill. Credai'r NSPCC “it is for the Welsh Government to ensure that there is no duplication of powers and that those individual commissioners’ roles are clearly defined and are coterminous in terms of where their responsibilities stop and start.”<sup>122</sup>

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

196. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried ymhellach yr angen i'r cynghorydd fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb i hyn, dywedodd:

“I think that the adviser is an important role, and it is important that it is close to Government in the sense that we are looking for someone of substance, with expertise in the area who can make a real contribution to the development of the national strategy and obviously have oversight of the local strategies.”<sup>123</sup>

197. Dywedodd “the expectation is that the ministerial adviser would not be a civil servant”<sup>124</sup> a phenodir deiliad y swydd o dan weithdrefnau penodi cyhoeddus arferol.<sup>125</sup>

198. Cytunodd y Gweinidog ystyried ymhellach roi'r pŵer i ddeiliad y rôl gosbi awdurdodau a chynnal ymchwiliadau. Fodd bynnag,

---

<sup>120</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV03

<sup>121</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV38

<sup>122</sup> CyT, paragraff 151, 17 Medi 2014

<sup>123</sup> CyT, paragraff 152, 1 Hydref 2014

<sup>124</sup> CyT, paragraff 159, 1 Hydref 2014

<sup>125</sup> CyT, paragraff 152, 1 Hydref 2014

dywedodd “at the present time, I think that we feel that the actual powers of sanction are powers that Ministers should hold.”<sup>126</sup>

199. O ran goblygiadau ariannol comisiynydd, nododd yr Aelod blaenorol a fu'n gyfrifol am y Bil y costau a oedd yn gysylltiedig â chreu rôl comisiynydd o gymharu â chynghorydd gweinidogol.

“A commissioner would be expected to cost between just under £600,000 and £650,000 per annum(...) that is looking at(...) the children’s commissioner and the older people’s commissioner....

“The estimated cost of a ministerial adviser I would expect to be no more than £80,000, maybe going up to £100,000 at the very most. However, that person will be supported by the team that we have.”<sup>127</sup>

### ***Ein barn ni***

200. Bydd rôl y cynghorydd Gweinidogol yn allweddol o ran darparu arweinyddiaeth gref wrth gyflawni nodau'r Bil. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, dylai unrhyw Gynghorydd Gweinidogol allu herio a, lle bo angen, feirniadu Llywodraeth Cymru.

201. Er ein bod yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y caiff y cynghorydd ei benodi gan ddilyn gweithdrefnau penodi cyhoeddus safonol, credwn yn gryf y dylai'r rôl hon fod yn annibynnol ar lywodraeth, cael ei chefnogi gan ysgrifenyddiaeth nad yw'n perthyn i'r gwasanaeth sifil, ac y dylai teitl y swydd adlewyrchu'r sefyllfa hyd braich hon. Cydnabyddwn y bydd costau uwch yn debygol o fod yn gysylltiedig â rôl cynghorydd fwy annibynnol.

202. At hyn, nodwn fod y Papur Gwyn yn cynnig rhoi swyddogaeth fonitro a'r pŵer i gynnal ymchwiliadau i gynghorydd annibynnol. Credwn fod pwerau o'r fath yn hanfodol i lwyddiant y rôl hon.

203. Yn olaf, rydym yn pryderu am y potensial i ddyblygu gwaith rolau eraill, fel y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth. Gofynnwn i'r Gweinidog ddarparu peth eglurhad ynghylch cyfrifoldebau a phwerau'r priod rolau hyn.

---

<sup>126</sup> CyT, paragraff 152, 1 Hydref 2014

<sup>127</sup> CyT, paragraff 177, 17 Gorffennaf 2014

**Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil fel a ganlyn:**

- darparu ar gyfer cynghorydd sy'n annibynnol ar lywodraeth, a gefnogir gan ysgrifenyddiaeth nad yw'n perthyn i'r gwasanaeth sifil;**
- newid teitl y swydd er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa hyd braich hon;**
- rhoi'r pŵer i'r cynghorydd fonitro hynt y broses o gyflawni strategaethau lleol a chynnal ymchwiliadau mewn achosion lle cafwyd perfformiad anfoddhaol.**

## 8. Diffiniadau

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

204. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- mae'r diffiniadau a geir yn y Bil yn hanfodol oherwydd byddant yn dod yn ddealltwriaeth safonol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus;
- mae'r diffiniad presennol o 'gam-drin domestig' yn rhy eang i ddod yn ystyrllon yn gyfreithiol;
- dylai 'rheolaeth gymhellol' gael ei chynnwys yn y diffiniad;
- mae'r diffiniad o 'drais rhywiol' yn peri dryswch;
- gallai fod dryswch rhwng asiantaethau datganoledig ac asiantaethau eraill os defnyddir diffiniadau gwahanol - er enghraifft, mae diffiniad y Swyddfa Gartref o 'drais domestig' a 'cham-drin' yn cynnwys rheolaeth gymhellol.

### *Cefndir*

205. Rhydd adran 21 ddiffiniadau o'r canlynol (ymhlith eraill):

- "cam-drin": cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;
- "cam-drin domestig": cam-drin lle mae cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr neu bu cysylltiad rhyngddynt;
- "trais ar sail rhywedd": (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod; (c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);
- "trais rhywiol": camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rhywiol.

### *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

206. Nododd nifer o ymatebwyr fod y diffiniad o "drais ar sail rhywedd" a ddefnyddir yn y Bil yn wahanol i'r diffiniad cyfreithiol y cytunwyd



arno'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar y pwynt hwn, dywedodd yr Athro Jackie Jones:

“The definition focuses on some of the causes of gender-based violence, rather than on what happens when gender-based violence occurs. (...) The Bill should adopt the internationally recognized definition. In this way, it can still address the causes as well as the consequences of violence, fulfilling its original aim.”<sup>128</sup>

207. Hefyd, dadleuodd yr Athro Jones fod y diffiniad o 'gam-drin' yn y Bil yn “very narrow, is exclusive, rather than inclusive, leaving other pervasive acts of violence out of legal regulation”. Credai, “at a minimum, ‘Coercive control’ should be included”.<sup>129</sup>

208. Dadleuodd yr Athro Jones fod y diffiniad presennol o “gam-drin domestig” “is far too wide to become meaningful in law”.<sup>130</sup> Roedd ymatebwyr eraill hefyd o'r farn bod y diffiniad presennol yn “gyfyngol” yn hytrach na “chynhwysol”.

209. Mynegodd Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod Cymru, ynghyd â llawer o dystion eraill, bryderon ynghylch y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y Bil, yn enwedig o ran y term “trais ar sail rhywedd”, gan ddweud “the current name is also disappointing as it is cumbersome, divisive and unclear”.<sup>131</sup>

210. Dadleuodd:

“Currently in Wales, there exists a lack of clarity amongst agencies and the general public regarding what is meant by the term ‘violence against women and girls’, as well as exactly what specific forms of violence/abuse entail – particularly those forms of violence that are not so well-known as domestic abuse, in addition to the non-physical-violence aspects of domestic abuse.”<sup>132</sup>

211. Dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru wrthym fod y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y Bil yn bwysig er mwyn “ensure a targeted and

---

<sup>128</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV06

<sup>129</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV06

<sup>130</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV06

<sup>131</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV89

<sup>132</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV89

consistent approach to addressing its aims” but were currently very broad and missing essential elements”.<sup>133</sup>

212. Soniodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Fforwm Menywod Gogledd Caerdydd, Llwybrau Newydd a CLILC, am y diffiniad o "drais rhywiol". Dywedodd Fforwm Menywod Gogledd Caerdydd nad oedd y diffiniad yn “include reference to actual violence of a sexual nature. Whilst it includes Sexual Exploitation, this may be characterised by coercion without the use of violence.”<sup>134</sup>

213. Galwodd Barnado's Cymru am i "feithrin perthynas amhriodol ('grooming')" a "gorfodaeth" gael eu cynnwys o fewn y diffiniad o "drais rhywiol".<sup>135</sup>

214. Yn olaf, clywsom gan ymatebwyr, yn cynnwys CLILC, a gwestiynai p'un a oedd y Bil yn darparu ar gyfer unigolion a oedd yn ailbennu eu rhywedd.

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

215. Ar bwynt cyffredinol am y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y Bil, cytunodd y Gweinidog fod angen “consistency in definitions, with those used more widely, including by the Home Office.”<sup>136</sup>

216. Yn fwy penodol, ac mewn perthynas â “rheolaeth gymhellol”, dywedodd fod hyn yn dod o dan y diffiniad o “gam-drin” “because the exercise of coercive control requires some form of physical, emotional, psychological or financial abuse.”<sup>137</sup>

217. Dywedodd y byddai'n adolygu nodiadau esboniadol y Bil er mwyn cadarnhau hyn, ond y byddai hefyd yn adolygu'r dystiolaeth o ran y diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y Bil wrth iddo ddatblygu i Gam 2.<sup>138</sup>

### ***Ein barn ni***

218. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi creu diffiniadau newydd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y Bil, yn

---

<sup>133</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV88

<sup>134</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV16

<sup>135</sup> CyT, paragraff 153, 17 Medi 2014

<sup>136</sup> CyT, paragraff 185, 1 Hydref 2014

<sup>137</sup> CyT, paragraff 185, 1 Hydref 2014

<sup>138</sup> CyT, paragraff 185 a 187, 1 Hydref 2014

hytrach na mabwysiadu diffiniadau presennol Llywodraeth y DU neu ryngwladol.

219. Clywsom gryn dipyn o dystiolaeth a gefnogai'r defnydd o ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig a Chyngor Ewrop o "drais yn erbyn menywod", a diffiniad y Swyddfa Gartref o "drais a cham-drin domestig". Credwn y byddai defnyddio'r diffiniadau presennol hyn yn fwy effeithiol, gan eu bod yn hirsefydledig ac yn cael eu deall yn eang o fewn y sector.

220. Mae gennym rai pryderon am y diffiniad o "drais rhywiol" a ddefnyddir yn y Bil. Tynnwn sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth rydym wedi'i chael ar y mater hwn.

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn diwygio'r Bil er mwyn mabwysiadu'r canlynol:**

- diffiniad y Cenhedloedd Unedig o 'drais yn erbyn menywod';
- diffiniad y Swyddfa Gartref o 'drais a cham-drin domestig';

**gydag addasiadau priodol er mwyn sicrhau bod y diffiniadau hyn yn cyfateb i ddiffiniadau eraill a ddefnyddir yn y Bil;**

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried ymhellach y diffiniad o drais rhywiol yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law.**

## 9. Goblygiadau ariannol

---

### *Crynodeb o'r dystiolaeth yn y Bennod hon*

221. Dywedodd ymatebwyr y canlynol wrthym:

- mae'n debygol y bydd mwy o alw am wasanaethau os yw'r Bil yn cyflawni ei nodau, yn enwedig o ran y gofyniad Holi a Gweithredu;
- er bod cyllid yn brin, gallai gwasanaethau gael eu comisiynu'n well gyda gwell canllawiau cenedlaethol a phroses graffu gryfach;
- gallai'r Bil wyro adnoddau o wasanaethau rheng flaen, yn enwedig o fewn awdurdodau lleol.

### *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

222. Roedd llawer o ymatebwyr yn poeni am gostau'r Bil a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau.

223. Wrth sôn am y galw ychwanegol am wasanaethau, dywedodd CLILC wrthym nad oedd yn "appear to have been taken into account in the Explanatory Memorandum, in light of this the costs of the Bill might need to be revised."<sup>139</sup>

224. Dywedodd Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod ei fod yn pryderu am yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni nodau'r Bil yn gyson. Nid oedd yn argyhoeddedig bod y strategaethau cenedlaethol a lleol a amlinellir yn y Bil yn wahanol iawn i'r rhai sy'n bodoli eisoes ac, fel y cyfryw, dywedodd nad oedd yn disgwyl gwelliannau i'r broses o gomisiynu gwasanaethau ledled Cymru.<sup>140</sup>

225. Nododd ei dystiolaeth hefyd, heb adnoddau ychwanegol, "we cannot expect every local authority to provide every specialist service locally, but neither can we expect from the current Bill that local authorities will work together to pool resources and provide specialist services on a more coordinated or regional level."<sup>141</sup>

226. Roedd gan Cymorth i Fenywod Cymru bryderon tebyg, a dywedodd wrthym y byddai cynnydd mewn cyfraddau adrodd o

---

<sup>139</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV81

<sup>140</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV89

<sup>141</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV89

ganlyniad i agweddau ar y Bil fel 'Holi a Gweithredu' a hyfforddiant sector cyhoeddus yn “undoubtedly lead to increased pressure on these services without doing anything to address the geographical gaps in provision of services.”<sup>142</sup> Gwnaeth Cymru Ddiogelach a Llwybrau Newydd bwyntiau tebyg.

227. Aeth Cymorth i Fenywod Cymru ymlaen i ddadlau y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer ymdrin ag unrhyw gynnydd mewn cyfraddau adrodd er mwyn sicrhau bod dioddefwyr a gwasanaethau arbenigol yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi, ac er mwyn sicrhau bod camau gweithredu cyfannol ar waith.<sup>143</sup> Roedd Bawso o'r un farn.

228. Clywsom gan ymatebwyr, yn cynnwys Relate a Cymru Ddiogelach, mai un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu darparwyr yn y trydydd sector yw natur fyrdymor y cyllid sydd ar gael iddynt. Clywsom hefyd fod angen i'r Bil sicrhau bod adnoddau presennol yn cael eu defnyddio'n well os na fyddai adnoddau ychwanegol ar gael.

### ***Tystiolaeth gan y Gweinidog***

229. Wrth ymateb i'n cwestiynau am oblygiadau ariannol y Bil a ph'un a fyddai'n arwain at arbedion mewn meysydd cyllidebol eraill, dywedodd y Gweinidog:

“Clearly, there is a very important role within the national and local strategies for preventative work. Obviously, one hopes that preventative work ultimately leads to a reduction in the need for other services. However, we also know that preventative work sometimes can help to uncover previously undiscovered issues.

“I think that it is a judgment that we will have to make as we move forward. We have done the required regulatory impact assessment and the financial cost assessment within that. I think that these things are difficult to judge and, at this stage, I do not want to go further than we already have within the explanatory memorandum.”<sup>144</sup>

---

<sup>142</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV88

<sup>143</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, GBV88

<sup>144</sup> CyT, paragraff 189, 1 Hydref 2014

230. Cadarnhaodd fod y gyllideb yn y maes hwn wedi cael ei chynyddu "ychydig" wrth baratoi ar gyfer y Bil.<sup>145</sup>

231. Gofynnwyd i'r Gweinidog am wybodaeth am yr asesiadau a wnaed ganddo ynghylch y posibilrwydd o gynnydd yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i weithredu'r Bil. Mewn ymateb i hyn, dywedodd:

"I think that the evidence that we have is that we would expect, in the short term, that the 'ask and act' guidance might well prompt an increase in demand for specialist services, and we will expect to see local needs assessments and local strategies to take account of that as service provision is planned.

"We are therefore reviewing our current funding strategy to identify the most appropriate model going forward to support this. Clearly, there are already services in place, but we think that that guidance might lead to an increase in service use."<sup>146</sup>

232. Gwnaethom hefyd ofyn a allai gweithredu'r Bil wyro adnoddau o wasanaethau rheng flaen. Yn hyn o beth, dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd yn credu y byddai "if there is proper planning in terms of the strategies at the beginning". Aeth ymlaen i ddweud:

"What is important, I think, is that, in drawing up the strategies, people utilise the skills and expertise that exist locally, particularly from service users in drawing up those strategies."<sup>147</sup>

### ***Ein barn ni***

233. Mae'r broses o weithredu'r Bil yn debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau, yn enwedig yn y byrdymor i'r tymor canolig.

234. Er ein bod yn nodi bod y gyllideb yn y maes hwn wedi cynyddu "ychydig", clywsom y bydd gostyngiadau cyllidebol mewn meysydd eraill fel Cefnogi Pobl a'r grant cymorth refeniw, yn cael effaith andwyol ar allu darparwyr gwasanaeth i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac amddiffyn y dioddefwyr hynny.

### **Argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried ymhellach y lefel o arian a ddyrennir i weithredu'r Bil.**

<sup>145</sup> CyT, paragraff 191, 1 Hydref 2014

<sup>146</sup> CyT, paragraff 196, 1 Hydref 2014

<sup>147</sup> CyT, paragraff 203, 1 Hydref 2014

235. Fel yn achos gweithredu unrhyw Fil newydd, credwn ei bod yn hanfodol bod trefniadau ar waith i fonitro ei effaith a'i effeithiolrwydd. Credwn hefyd ei bod yn bwysig gwneud trefniadau i fonitro ymrwymiad ariannol gweithredu'r Bil.

**Argymhellwn fod y Gweinidog yn gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn monitro effaith ac effeithiolrwydd y Bil, gan gynnwys yr adnoddau a ddyrennir ac unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil ei weithredu.**

## Atodiad 1: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig

---

### Tystiolaeth ysgrifenedig

236. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar gael yn llawn yma:

[www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=145](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=145)

### Tystiolaeth lafar

237. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yma:

[www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1306](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1306)

17 Gorffennaf 2014	Sefydliad
Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth Lynne Schofield, Pennaeth y Tîm Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig Rhys Davies, Cyfreithiwr	Llywodraeth Cymru
17 Medi 2014	
Des Mannion, Pennaeth Gwasanaeth Cenedlaethol	NSPCC Cymru
Sara Reid, Cydgysylltydd	Sdim Curo Plant! Cymru
Eleri Griffiths, Swyddog Datblygiad a Hyfforddiant	Plant yng Nghymru
Menna Thomas, Uwch-swyddog Ymchwil a Pholisi	Barnardo's Cymru
Yr Athro Emma Renold	Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Jonathan Shepherd	Grŵp Ymchwil Trais, Prifysgol Caerdydd



Jackie Jones, Athro Astudiaethau Cyfreithiol Ffeministaidd, Ysgol y Gyfraith Bryste, Cadeirydd UWE, Llywydd Cynulliad Merched Cymru	Cymdeithas Cyfreithwyr Benywaidd Ewrop
<b>25 Medi 2014</b>	
Eleri Thomas, Prif Weithredwr	Cymorth i Fenywod
Mwenya Chimba, Cyfarwyddwr Trais yn erbyn Menywod	BAWSO
Cathy Owens, Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod	Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod
Frances Beecher, Prif Swyddog Gweithredol	Llamau
Bernadette Bowen–Thomson, Dirprwy Brif Weithredwr	Cymru Ddiogelach
Gwilym Roberts, Prif Swyddog Gweithredol	Relate Cymru
Johanna Robinson, Rheolwr Datblygu Cenedlaethol Cymru	Ymddiriedolaeth y Goroeswyr yng Nghymru
<b>1 Hydref 2014</b>	
Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Sarah Rhodes, Rheolwr Bil Rhys Davies, Cyfreithiwr	Llywodraeth Cymru
Simon Borja, Swyddog Datblygu Prosiect, Cynllun Dyn	Cymru Ddiogelach
Mark Brooks, Cadeirydd	Menter Mankind
Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Jackie Stamp, Prif Weithredwr	Llwybrau Newydd
Y Ditectif Uwch–arolygydd Lian Penhale	Heddlu De Cymru
Y Ditectif Arolygydd Bryan Heard	Heddlu De Cymru